Gorchuddir yr Ardd mewn cen ddiddorol.

Defnyddiwch y map i chwilio am arwyddion gyda rhifau - bydd y rhain yn eich helpu i gwrdd â rhai o'n hoff gennau

Beth yw cen?

Mae cen yn ddau greadur sy'n byw yn yr un corff – ffwng ac alga. Mae angen y ddau ar ei gilydd i oroesi. Mae'r alga yn gwneud bwyd o olau'r haul, tra bod y ffwng yn ffurfio strwythur eu cartref, gan amddiffyn yr alga rhag sychu.
Mae llygredd yn effeithio ar gen, fel arfer trwy eu lladd. Yn ffodus, mae'r awyr yn y rhan hon o Gymru yn aer glân iawn, felly mae yna lawer o wahanol fathau o gen yma.

Cen Baw Adar

Mae rhai adar yn hoffi eistedd ar fan arbennig – rhywle gallant chwilio am fwyd ac i ganu. Maen nhw'n tueddu i drochi yn yr un lle ac mae un math o gen yn hoffi bwydo oddi ar eu baw. Dyma'r cen baw adar – mae ei liw melyn yn sefyll allan ar graig lwyd. Gallwch ddod o hyd iddi ar y creigiau ar hyd Y Rhodfa, gan gynnwys y creigiau gyda'r arwydd rhif 2

Cen ar Feinciau

Gall cennau dyfu ar bron unrhyw beth – o amgylch yr Ardd hon gallwch ddod o hyd iddynt ar goed, creigiau a phalmentydd. Mae'r cen yn hoff iawn o feinciau pren yma – edrychwch am gen ar yr un hon ar hyd Y Rhodfa.
Mae cen yn tyfu mor gyflym ar ein meinciau y mae'n rhaid inni olchi nhw weithiau gan nad yw pobl am eistedd arnyn nhw. A fyddai hynny'n eich poeni?

Cen Sgript

Mae yna goeden yng Nghoed y Gwanwyn sy'n edrych petai rywun wedi ysgrifennu drosto. Edrychwch am arwydd rhif 2 i ddod o hyd i'r goeden. Yna, edrychwch am y 'geiriau' hyn.

Beth ydych chi'n meddwl meddai'r sgript ryfedd hyn? 'Helo', 'Rwy'n gen', Rwy'n caru cen'?

Cen sy'n edrych fel rhwymynnau

Mae rhai cennau yn tyfu'n araf iawn.
Mor araf bod boncyff y goeden yn tyfu'n gyflymach na'r cen.
Edrychwch ar y ffawydden hon – a allwch chi weld sut mae'r cen wedi ei ymestyn gymaint fel ei bod yn edrych fel plaster glynu.

Edrychwch yn ofalus

Mae yna linell o goed mêl-ddraenen tu allan i'n siop. Maent wedi'u gorchuddio gan gen. Dewch o hyd i'r chwyddwydrau sy'n hongian o'r goeden. Defnyddiwch y rhain i edrych i weld sut mae'r cennau'n ymgysylltu â'r goeden ac i chwilio am ronynnau neu ddotiau du – mae'r rhain yn cynnwys sborau sy'n helpu cennau i ledaenu i goed eraill.

Parmelia saxatilis

Defnyddiwyd cennau'n helaeth i liwio brethynnau – mae lliwiau melyn, coch, hyd yn oed porffor, wedi'u cael o rywogaethau gwahanol o gennau. Mae'r ***Parmelia saxatilis***, yn cynhyrchu lliw coch-frown sy'n dal i gael ei ddefnyddio i liwio brethyn cartref Harris. Mae e i'w weld mewn niferoedd mawr ar y Dolerit Smotiog yng Nghraig yr Oesoedd



Celf Cen

Y darlun hwn yw dehongliad Julie Sheriden o'r cennau ar graig ar hyd Y Rhodfa – rhif 8. Ewch i edrych amdani a gweld a allwch weld y cennau go iawn y maen wedi'i beintio. Gallwch glywed hi'n sôn am y llun hwn yma.